


YN GAETH:



TLODI YMHLITH
MENYWOD YNG
NGHYMRU HEDDIW

DR VICTORIA WINCKLER
DECEMBER 2019

CYFLWYNIAD

Mae gan Chwarae Teg weledigaeth ar gyfer Cymru decach lle mae menywod yn cyflawni ac yn ffynnu. Nid yw'r weledigaeth hon yn gyflawnadwy oni bai y gall pob menyw ffynnu, ac mae tlodi yn rhwystr sylweddol rhag gwireddu hyn.

Mae cyfraddau tlodi yng Nghymru wedi aros yn yr unfan ar y cyfan dros y degawd diwethaf, ar oddeutu 24%. Fel rhywbeth sydd wedi dod yn gymaint o nodwedd barhaol yn ein cymdeithas, mae'n bosib nad ydym yn effro i ba mor annerbyniol yw'r sefyllfa hon.

Gwnaethom gomisiynu'r ymchwil hon gan gydnabod bod risg, profiad ac effaith tlodi yn wahanol i fenywod nag y mae i ddynion. O ganlyniad, bydd ymyriadau polisi ond yn effeithiol os cânt eu dylunio gyda'r gwahaniaethau hyn mewn golwg.

Mae risg tlodi menywod wedi'i chysylltu'n agos â'u safle yn y farchnad lafur ac o fewn cartrefi. Fel ail enillwyr, neu brif ofalwyr, mae gan nifer o fenywod incwm annibynnol cyfyngedig, sy'n eu gadael yn agored iawn i ddioddef o dlodi os bydd perthynas yn torri i lawr. Maent yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn rolau rhan-amser â thâl isel ac mae'n rhaid iddynt wneud penderfyniadau anodd yn aml ynghylch a ddylent weithio neu

ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb dros ofalu am eu plant.

Ar hyn o bryd, mae'r darlun o dlodi menywod yng Nghymru wedi'i guddio i raddau helaeth gan fesurau tlodi mewn cartrefi sy'n ddiffygiol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r dystiolaeth sydd ar gael i ddangos y gwirionedd llwm. Yn aml, ceir darlun o fyd ansicr, ar fin cylllell, lle mae'n rhaid llywio systemau cyflogaeth, gofal plant a seilwaith sydd fel petaent yn mynd yn groes i'w gilydd. Mae'n glir nad yw tlodi yn deillio o faterion strwythurol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn ein heconomi yn unig, ond ei fod hefyd yn deillio o fethiant polisïau. Mae gennym system nawdd cymdeithasol nad yw'n cynnig rhwyd ddiogelwch briodol bellach, trafndiaeth gyhoeddus sy'n rhy ddrud i'r mwyafrif o fenywod ar incwm isel ei defnyddio, a system gofal plant sy'n gymhleth ac yn anhygyrch ar gyfer nifer o deuluoedd.

Ni allwn fforddio i wneud esgusodion mwyach; mae angen strategaeth traws-lywodraeth effeithiol arnom i fynd i'r afael ag achosion tlodi ac nid lliniaru ei effaith yn unig. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig sail dystiolaeth werthfawr sy'n gallu sicrhau bod y dull traws-lywodraeth hwn yn ymateb i anghenion y menywod niferus yng Nghymru sy'n parhau i fod yn gaeth mewn tlodi.

CRYNODEB GWEITHREDOL

1 Mae gormod o bobl yng Nghymru yn gaeth mewn tlodi. Mae gan fenywod risg ychydig yn uwch o dlodi incwm cymharol na dynion, gyda'r risg yn arbennig o uchel ar gyfer rhieni sengl. Nid yw nifer y menywod sydd mewn tlodi wedi newid dros y deng mlynedd ddiwethaf. Mae mesurau tlodi eraill, fel amddifadedd materol, digartrefedd, ac ansicrwydd o ran asedau a bwyd, yn cadarnhau bod menywod yn cael eu heffeithio'n fwy gan dlodi na dynion.

2 Hoffem weld Cymru decach lle mae menywod yn cyflawni ac yn ffynnu, ac mae eu hamgylchiadau penodol yn cael eu cydnabod a'u hadlewyrchu mewn polisïau a chymau gweithredu. Er bod datrys tlodi yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, nid oes strategaeth mewn lle eto na mesurau i fynd i'r afael â'r heriau penodol sy'n wynebu menywod.

3 Roedd gennym fwriad i ddarganfod mwy am brofiadau menywod ar incwm isel. Canfuom fod profiadau menywod yn wahanol i brofiadau dynion yn aml, gyda menywod yn cael eu dal nôl gan gyfleoedd gwaith cyfyngedig, tâl isel a diffyg gofal plant. Mae'r canfyddiadau hyn, yn ogystal â thystiolaeth o ymchwil arall, yn dangos bod angen i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill gymryd camau uchelgeisiol.

4 Strategaeth traws-lywodraeth effeithiol

Mae angen strategaeth effeithiol, sy'n canolbwyntio ar achosion sylfaenol yn lle mentrau cwbl wahanol, er mwyn cyflawni newid ar raddfa fawr. Gan ystyried ei hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi, gall Llywodraeth Cymru wneud

llawer mwy i helpu i godi pobl allan o dlodi a dylai wneud hynny.

5 Cael mwy o fenywod i mewn i waith

Mae gwaith yn parhau i fod yn llwybr allweddol allan o dlodi. Nid yn unig y mae'n cynyddu incwm y cartref ond y mae hefyd yn rhoi eu harian eu hunain i fenywod ac mae'n eu helpu i wella eu sgiliau a phrofiad ar gyfer y dyfodol. Rydym yn galw am y canlynol:

A Cymorth i helpu menywod i gael cyflogaeth a datblygu ynddi sy'n deall ac yn mynd i'r afael â'r rhwystrau economaidd-gymdeithasol ehangach y mae menywod yn eu hwynebu;

B Tâl ac amodau gwell trwy hyrwyddo'r cyflog byw real yn weithredol, sydd o fudd sylweddol i fenywod ar gyflogau isel;

C Annog patrymau gwaith hyblyg er mwyn galluogi menywod i gyfuno gweithio a gofalu.

6 Diwygio nawdd cymdeithasol

Mae nawdd cymdeithasol yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol sy'n cefnogi incwm menywod a theuluoedd. Gallai Llywodraeth Cymru wneud llawer mwy i sicrhau bod nawdd cymdeithasol yn llacio gafael tlodi:

A Gwneud cais brys i Lywodraeth y DU am bwerau gweinyddol dros Gredyd Cynhwysol er mwyn rhoi dewis a hyblygrwydd i fenywod wrth reoli eu harian;

B Diwygio'i chynlluniau budd-daliadau ei hun er mwyn iddynt helpu i ddatrys tlodi a galluogi teuluoedd i ddewis pwy sy'n hawlio.

7**Cynnig gofal plant newydd**

Mae diffyg gofal plant fforddiadwy o ansawdd da yn ffactor mawr sy'n dal menywod mewn tlodi nôl. Dylai Llywodraeth Cymru ddisodli ei chymysgedd darpariaeth presennol â darpariaeth gynhwysol ddi-dor sydd am ddim:

A Gofal plant rhan-amser sydd am ddim ac addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant o naw mis oed am 48 wythnos y flwyddyn gydag oriau ychwanegol ar gael am ffioedd ar raddfa newidiol.

B Gofal cyn-ysgol, ar ôl yr ysgol a gwyliau am ddim o oedran mynychu'r ysgol hyd at 14 oed, am 48 wythnos y flwyddyn, gydag oriau ychwanegol ar gael am ffioedd ar raddfa newidiol.

C Lle wedi'i warantu ar gyfer pob plentyn y mae ei rieni am gael un, beth bynnag yw statws gwaith y rhieni neu benderfyniadau ysgolion o ran cymryd rhan.

8**Mynediad i wasanaethau hanfodol**

Mae menywod wedi cael eu heffeithio'n arw gan doriadau i wasanaethau hanfodol. Wrth gydnabod y cyfyngiadau ar wario cyhoeddus, rydym yn galw serch hynny am y canlynol:

A buddsoddiad mewn addysg gymunedol ar gyfer oedolion, â llwybrau clir i mewn i ddysgu pellach a chyflogaeth.

B ystyriaeth o anghenion trafndiaeth menywod a'u teuluoedd wrth ddatblygu gwasanaethau a seilwaith trafndiaeth gyhoeddus.

9**Cefnogi annibyniaeth ariannol menywod**

Gallai cyrff cyhoeddus wneud mwy i alluogi menywod i gael dewis o ran trefniadau ariannol eu cartrefi ac i leihau'r risg o gam-drin ariannol. Rydym yn argymhell dau gam pwysig:

A Cynnig cyrsiau byr ar arian personol yn y gymuned ac ar gyfer menywod sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu, gwirfoddoli a chyflogaeth;

B Cynorthwyo menywod sy'n derbyn arian cyhoeddus i agor cyfrif banc pan nad oes ganddynt un.